O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â’R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill sy’n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i wregysau diogelwch gael eu ffitio ar fysiau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr. Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfeiriad at gyfraith yr Undeb Ewropeaidd mewn darpariaeth sy’n datgan nad yw’r gofyniad i ffitio gwregysau diogelwch yn effeithio ar unrhyw safon dechnegol a fyddai fel arall yn gymwys yn rhinwedd deddfiadau penodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## TRAFNIDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* *4 Chwefror 2019*

*Gwnaed* *12 Chwefror 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *13 Chwefror 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2018 p. 16.

**Diwygio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

**2.** Yn adran 14A(5) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**1**), yn lle “unrhyw ofyniad yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy’n uniongyrchol gymwysadwy” rhodder “unrhyw ofyniad yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir”.

*Ken Skates*
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
12 Chwefror 2019

(**1**) 2008 mccc 2; mewnosodwyd adran 14A gan adran 1 o Fesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (mccc 6).